

Sul y Gwahanglwyf

Darllen: Luc 17:11–15

Yn ddiweddar, bûm ar Ynys Spinalonga ar arfordir Ynys Creta. Dyma ynys yr alltudiwyd gwahangleifion iddi o gyffiniau gwlad Groeg a Chreta i gyd-fyw, yn ôl pob golwg, yn gymdeithas glos a hapus. Ysgrifennodd Victoria Hislop nofel, *The Island*, sy'n portreadu bywyd y gwahangleifion ar yr ynys hon. Bellach, does neb yn byw ar yr ynys, ond mae'n dynfa i dwristiaid, ac yno yr es i ar ddydd Sul crasboeth ym mis Medi. Mae adfeilion y tai a'r siopau a'r eglwys yno o hyd, yn arwydd o gydweithio a chyd-ddyheu'r anffodusion hyn. Arwyddion sydd yno bellach o gymuned ddolurus a fu'n ceisio dod i delerau â bywyd.

Gwelodd Iesu griw o wahangleifion ar y ffin rhwng Galilea a Samaria. Nid oedd pethau'n dda rhwng yr Iddewon a'r Samariaid, ond roedd yna un Samariad ymhlith y criw hwn. Dyma enghraifft o angen dyfnaf dyn yn gallu chwalu rhagfuriau hiliol. Yn eu gwendid, roedden nhw wedi anghofio mai Iddewon a Samariaid oedden nhw. Dim ond un peth oedd yn eu cysylltu, sef mai pobl mewn angen oedden nhw. Yn ôl y sôn, mae anifeiliaid sydd fel arfer yn elynion i'w gilydd yn gallu goddef ei gilydd a chyd-fyw pan gawn nhw eu goddiweddyd gan lifogydd a gorfod symud i dir uwch. Mae'r angen i oroesi yn gryfach na'r reddf i larpio a lladd.

Mae'r deg gwahanglwyf mewn angen, ac mae Iesu'n eu gwella. Ond dim ond un, ac yntau'n Samariad, sy'n dychwelyd i ddiolch. Mae'r unigolyn hwn yn dangos yr Iddewon mewn goleuni pur ddamniol am na ddaethon nhw'n ôl. Wedi iddyn nhw ymgynghori â'r offeiriad, mae'n bosibl eu bod yn ofni dychwelyd at Iesu am ei fod ef erbyn hyn yn darged i'r awdurdodau crefyddol, neu efallai eu bod ar frys i fynd at eu teuluoedd gan iddynt fod oddi cartref cyhyd. Daeth y deg gyda'r dyhead o gael eu gwella. Glanhaodd yntau hwy, ond ni dychwelodd y naw. Mae'n ddigwyddiad mor gyfarwydd. Dowch i ni holi'n hunain.

Pa mor aml y buom ninnau'n anniolchgar? Ewch yn ôl i gyfnod eich plentyndod. Beth am y gofal a'r tynerwch a gawsoch chi gan eich rhieni? A mwy na hynny, yr aberth: mynd heb bethau eu hunain, yn enwedig pan oedd bywyd yn galed, er mwyn i'r plant gael y gorau. A beth am yr hyn gawsoch chi gan eich athrawon yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd? Fe'ch clywaf chi'n dweud, 'Ond doedden nhw'n cael eu talu i ddysgu a hyfforddi'r plant?' Digon gwir, ond faint ohonyn nhw oedd yn rhoi o'u hamser hamdden i baratoi ar gyfer yr Urdd, yr Eisteddfod, y timau pêldroed a rygbi, a chario'r plant o'r naill le i'r llall cyn i ddeddfau iechyd a diogelwch lyffetheirio'r cwbl? Beth am aelodau eraill o'r teulu, cymdogion a ffrindiau? Mae'r rhestr yn lleng. Un cwestiwn cyn cloi. Pa mor anniolchgar ydyn ni tuag at Dduw?

Myfyrdod pellach:

Ystyriwch y boen feddyliol o gael eich amddifadu o blith eich teulu a'ch cydnabod.

Oes yna le i'r weinidogaeth iachau yn ein heglwysi?